### Gêm gardiau



Defnyddiwch becyn o gardiau chwarae. Tynnwch y jaciaid, y breninesau a'r brenhinoedd allan.

- Cymerwch dro.
- Cymerwch garden a rholiwch ddis.

Lluoswch y ddau rif.

- Ysgrifennwch yr ateb ar bapur. Cadwch gyfanswm wrth fynd ymlaen.
- Y cyntaf i fynd dros 301 sy'n ennill!

### Gweddillion

Gwnewch grid 6 x 6 fel hwn.

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| 82 | 33 | 60 | 11 | 73 | 22 |
| 65 | 12 | 74 | 28 | 93 | 51 |
| 37 | 94 | 57 | 13 | 66 | 38 |
| 19 | 67 | 76 | 41 | 75 | 85 |
| 86 | 29 | 68 | 58 | 20 | 46 |
| 50 | 69 | 30 | 78 | 59 | 10 |

- Dewiswch dabl 7, 8 neu 9.

Cymerwch dro.

- Rholiwch ddis.
- Dewiswch rif ar y bwrdd, e.e. 59. Rhannwch hwn â rhif y tabl, e.e. 7. Os yw gweddill 59 ÷ 7 yr un peth â rhif y dis, gallwch roi cownter neu ddarn arian dros y rhif ar y bwrdd
- Y cyntaf i gael pedwar cownter mewn llinell syth sy'n ennill!



### Dyblau a threblau

- Rholiwch ddau ddis.
- Lluoswch y ddau rif i gael eich sgôr.
- Rholiwch un dis eto. Os cewch eilrif, dyblwch eich sgôr. Os odrif, treblwch eich sgôr.
- Cadwch gyfanswm eich sgôr wrth fynd ymlaen.

Y cyntaf i gael dros 301 sy'n ennill.

# Targedau i ddisgyblion Blwyddyn 6

Ysgol Gymraeg Parc y Tywyn




## Llyfryn i rieni

Rhoi help llaw gyda mathemateg eich plentyn

# Targedau - Blwyddyn 6

**Erbyn diwedd Blwyddyn 6, bydd y rhan fwyaf o blant yn gallu …**

☐ Gwybod yr holl dablau i 10 x 10, yn enwedig i rannu, e.e. 63 ÷ 7 = 9, gan gyfrifo gweddill yn gyflym.

☐ Lluosi a rhannu degolion â 10 neu 100 yn eu pen, e.e. 2.61 x 10, 53.2 ÷ 100.

☐ Rhoi rhifau, gan gynnwys degolion, yn nhrefn eu maint, e.e. 1.06, 0.099, 0.25, 1.67.

☐ Defnyddio pensil a phapur i adio a thynnu degolion, e.e. 3.91 + 8.04 + 24.56, neu 13.3 - 1.27.

☐ Defnyddio pensil a phapur i luosi a rhannu, e.e. 387 x 46, 21.5 x 7, 539 ÷ 13, 307.6 ÷ 4.

☐ Canslo ffracsiynau e.e. lleihau $^{4}/_{20}$ i $^{1}/_{5}$, a chyfrifo pa ffracsiwn yw'r mwyaf, e.e. $^{7}/_{12}$ neu $^{2}/_{3}$.

☐ Cyfrifo canrannau syml cyfanrifau, e.e. 25% o £90 yw £22.50.

☐ Amcangyfrif onglau a defnyddio onglydd i'w mesur.

☐ Cyfrifo perimedr ac arwynebedd siapiau syml y gellir eu rhannu'n betryalau, e.e.



☐ Datrys problemau geiriau ac esbonio'u dull gweithio.

☐ Defnyddio cyfesurynnau i blotio safle pwyntiau.

☐ Deall a defnyddio'r wybodaeth mewn graffiau, siartiau a thablau.

## Y targedau

Mae'r targedau hyn yn dangos rhai o'r pethau y dylai plant allu eu gwneud erbyn diwedd Blwyddyn 6.

Mae'n bosib bod targed yn fwy cymhleth mewn gwirionedd, e.e. efallai y bydd plant yn gwybod sut i gyfrifo symiau ar bapur ond mae angen iddynt weld hefyd pryd y byddai'n gyflymach cyfrifo yn eu pen.

## Gweithgareddau hwyl i'w gwneud gartref

### Mynd ar daith

Defnyddiwch y siart yn nhudalennau blaen atlas ffordd sy'n dangos y pellteroedd rhwng gwahanol leoedd.

- Dowch o hyd i'r lle agosaf atoch chi.
- Gofynnwch i'ch plentyn gyfrifo faint o amser y byddai'n cymryd i deithio i rai lleoedd yn Lloegr petaech chi'n teithio

60 milltir yr awr ar gyfartaledd, h.y. 1 filltir y funud, e.e.

| | | |
|---|---|---|
| Caerefrog i Preston: | 90 milltir | 1 awr 30 munud |
| Caerefrog i Dover: | 280 milltir | 4 awr 40 munud |

Ceisiwch annog eich plentyn i gyfrif fesul 60 i gyfrifo'r atebion yn ei ben.

£1,000,000

### Miliwn o bunnoedd

Ystyriwch bod £1 000 000 gennych i'w gwario neu i'w rhoi. Cynlluniwch sut y byddech chi'n gwario'r arian gyda'ch plentyn, i'r ceiniog olaf.